# CYLCHLYTHYR 06.09.24

Croeso nôl i flwyddyn ysgol newydd! Gobeithio i chi gyd gael gwyliau haf hyfryd. Braf iawn oedd croesawu ein disgyblion yn nôl yr wythnos yma – ac yn arbennig ei disgyblion Dosbarth Derbyn sydd yn ymuno a'r ysgol am y tro cynta'. Croeso i deulu Ysgol Coed-y-Gof!

Mae blwyddyn brysur o'n blaenau felly cadwch lan gyda'r holl ddigwyddiadau a newyddion wrth ddarllen y Cylchlythyr pythefnosol, ar wefan yr ysgol, ein cyfrif Instagram ysgol.coedygof, X (Twitter) @YsgolcoedYgof, ein tudalen Facebook: Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof ac ar app Class Dojo.

## Lluniau unigol/teuluol

Bydd cwmni tynnu lluniau Tempest yn yr ysgol ar ddydd Iau y 17eg o Hydref ar gyfer tynnu lluniau unigolion a theuluoedd. Os ydych yn dymuno llun gyda brodyr neu chwiorydd nad ydynt yn ddisgyblion Coed-y-Gof, dewch i'r ysgol am 08:40. Diolch.

## Clybiau

Bydd clybiau allgyrsiol yn cychwyn yr wythnos nesaf – plis cliciwch y ddolen isod neu ddefnyddio'r cod qr i gofrestr eich plentyn. Bydd y clybiau yn newid bob hanner tymor i gynnig amrywiaeth i'n disgyblion.

| | Pwy? | Pryd? | Beth? |
|---|---|---|---|
| **Dydd Iau** | Bl 1 & 2 | 3:15 – 4:30 | Clwb Hwyl a Sbri |
| **Dydd Iau** | Bl 3 & 4 | 3:15 – 4:30 | Clwb aml-chwaraeon yr Urdd |
| **Dydd Iau** | Bl 5 & 6 | 3:15 – 4:30 | Pêl-droed cymysg |
| **Dydd Gwener** | Bl 3 – 6 | 12 – 12:30 | Pokemon |

## COFRESTRWCH YMA!

https://forms.office.com/e/LKaEWWYwNK

Clybiau Hydref 2024 / Autumn clubs 2024

## Clwb Brecwast

Bydd Cofrestr y Clwb Brecwast yn cau ar ddydd Gwener, Medi 13eg felly cofrestrwch eich plentyn cyn y dyddiad cau fan hyn.

https://forms.office.com/e/6pRCRk8NAi

Clwb Brecwast Medi 2024 /
Breakfast Club September 2024

## Gwasanaeth gan RS Music School

Diolch enfawr i @RSMusicSchool am ddod mewn i'r ysgol dydd Mercher, Medi'r 4ydd a chyffroi'r plant yn llwyr. Sêr roc y dyfodol wedi mwynhau'n fawr!






# DYDDIADAU PWYSIG

| | |
|---|---|
| 17.09.24 | Cyfarfod Llywodraethwyr |
| 19.09.24 | Trip preswyl Bl 5 i Ddolygair, Bannau Brycheiniog |
| 23-27.09.24 | Trip preswyl Bl 6 i wersyll yr Urdd, Llangrannog |
| 30.09.24 | Ffair "Cysylltwyr Cymunedol" yn neuadd yr ysgol – manylion i ddilyn |
| 01.10.24 | Boom Cymru – clyweliadau ar gyfer Stwnsh Sadwrn, Bl 5&6 |
| 01.10.24 | Twrnament pêl-droed agored yr Urdd, Bl 5&6 |
| 04.10.24 | HMS – Ysgol ar gau i ddisgyblion |
| 07.10.24 | HMS – Ysgol ar gau i ddisgyblion |
| 08.10.24 | Dewch i gwrdd â'r athro! 2:30-3:00 |
| 14.10.24 | Brechliniau ffliw DD – Bl 6 |
| 17.10.24 | Lluniau ysgol unigol a theuluoedd |
| 25.10.24 | HMS clwstwr Plasmawr – Ysgol ar gau i ddisgyblion |
| 28.10-01.11.24 | Gwyliau Hanner Tymor<br>Clwb Bwrlwm yn yr ysgol 28 – 31/10 10:30 – 12:30 |
| 05.11.24 | Twrnament pêl-droed yr Urdd, merched Bl 5&6<br>Twrnament pêl-droed cymysg yr Urdd, Bl 3&4 |
| 12.11.24 | Noson Rieni |
| 13.11.24 | Noson Rieni |
| 14.11.24 | Noson Rieni (Ywen yn unig) |
| 03.12.24 | Cyfarfod Llywodraethwyr |
| 20.12.24 | Diwedd tymor |
| 23.12-06.01.25 | Gwyliau Nadolig |
| 06.01.25 | HMS Ysgol ar gau i ddisgyblion |